


AM DDIM

**JOSEF HERMAN** ARLUNYDD

# LLWYBR TREFTADAETH

**YSTRADGYNLAIS** 1944-55


UK Government
Llywodraeth y DU

LEVELLING UP

PAVO
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Powys Association of Voluntary Organisations

Powys

Josef Herman Arts Foundation
Sefydliad Celf Josef Herman

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


*Evening, Ystradgynlais 1948*
*© Ystâd Josef Herman.*
*Llun © Tate*

# Croeso i Lwybr Treftadaeth Josef Herman Ystradgynlais

Croeso i Lwybr Treftadaeth cyntaf Sefydliad Celf Josef Herman, sy'n eich gwahodd i fynd am dro yn ôl troed Josef Herman o amgylch Ystradgynlais, gan roi cipolwg i chi o sut le oedd Ystradgynlais yn ôl yn y 1940au a'r 50au.

Mae Sefydliad Celf Josef Herman wedi'i leoli yn Neuadd Les y Glowyr, Ystradgynlais yn ne Cymru ac mae'n elusen gofrestredig sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo gwerthfawrogiad o fywyd a gwaith yr artist émigré Pwylaidd Josef Herman, ac yn ei enw meithrin cyfranogiad ehangach yn y celfyddydau a dealltwriaeth o hawliau dynol. Gwneir hyn drwy'r prosiect blynyddol i ysgolion, gan weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Rydym yn cynnal arddangosfeydd rheolaidd o'n casgliad parhaol a gwaith artistiaid a gydoesai â Herman, ac yn cynnal digwyddiadau a darlithoedd rheolaidd mewn lleoliadau a thrwy ffrydio byw.

Rydym yn cefnogi dwy wobr flynyddol sylweddol: Gwobr Gelf Flynyddol Josef Herman er cof am Carolyn Davies a roddir i raddedigion newydd o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; a gwobr 'Josef Herman - Dewis y Bobl' yn yr Eisteddfod Genedlaethol lle mae'r cyhoedd yn pleidleisio dros eu hoff waith o arddangosfa Lle Celf yr Eisteddfod.


**Hoffai Ymddiriedolwyr Sefydliad Josef Herman ddiolch i:**

Carole Hopkin, Caryl Roese, Betty Rae Watkins, Neuadd Les y Glowyr Ystradgynlais, Cwmni Theatr Lighthouse, Cyngor Tref Ystradgynlais, Cymdeithas Treftadaeth ac Iaith Ystradgynlais, Cronfa Dreftadaeth, Cadw, Llywodraeth Cymru. I'r holl unigolion sydd wedi rhannu eu hatgofion a'u lluniau â ni. Holl aelodau Cyfeillion y Sefydliad, mae eu cyfraniad yn caniatáu i ni barhau i greu prosiectau fel hyn.


Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a wneir gennym, a sut y gallwch gymryd rhan i'w gweld ar ein gwefan drwy ymweld â **www.josefhermanfoundation.org**


**E-bost:** info@josefhermanfoundation.org



**Rhif Elusen:** 1100064;
**Rhif Cwmni:** 04757025


*Llun clawr: Ystradgynlais, main street (Notes from a Welsh Diary) 1953 Sketch © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*



# Dod yn Gyfaill i'r Sefydliad

Mae arnom angen eich help a'ch cefnogaeth i barhau â'n gwaith, felly beth am ymuno â Chyfeillion Sefydliad Celf Josef Herman heddiw?

**Mae'r manteision yn cynnwys:**

- Cylchlythyrau rheolaidd a gwybodaeth am ddigwyddiadau
- Bydd y Cyfeillion yn cael cynnig cyfraddau gostyngol i weithdai a darlithoedd, a byddant hefyd yn cael eu gwahodd i arddangosfeydd preifat.
- Mynediad i'n hardal aelodau ar ein gwefan.
- Gostyngiadau ar eitemau o'n siop ar-lein
- Gwahoddiadau i ddigwyddiadau cymdeithasol a dathliadau
- Ein helpu i gyflawni ein nodau o ran cefnogi datblygiad y Sefydliad yn y dyfodol

Yr her yw gwneud y Sefydliad yn gynaliadwy a chynyddu’r defnydd a’r cyfranogiad cymunedol. Mae aelodaeth yn £5 i unigolyn neu £10 i deulu (hyd at 2 oedolyn ac unrhyw blant o dan 16 oed) y flwyddyn.

Os hoffech helpu, neu gael rhagor o wybodaeth am JHAF, cysylltwch â ni drwy e-bost: **info@josefhermanfoundation.org**

**Crëwyd yr pamffled hwn fel rhan o brosiect Llwybr Treftadaeth Sefydliad Celf Josef Herman. Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.**

# Lawrlwythwch yr Ap

I lawrlwytho'r ap ewch i:
**www.josefhermanfoundation.org/llwybr-treftadaeth**
Neu chwiliwch am ***Herman Trail*** ar Google Play neu'r App Store.

Sganiwch Fi

Os ydych chi'n tynnu unrhyw luniau neu'n cael eich ysbrydoli i fraslunio rhai o'r golygfeydd o amgylch y pentref rhannwch nhw gyda ni! Dilynwch ni a tagiwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio’r hashnod **#LlwybrTreftadaethHerman #HermanHeritageTrail**

**@JHAFCymru**

UK Government Llywodraeth y DU
LEVELLING UP
PAVO Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys / Powys Association of Voluntary Organisations
Powys
CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYNGOR TREF YSTRADGYNLAIS TOWN COUNCIL
The Welfare Y Neuadd Les Ystradgynlais



*The Pit Pony 1958–9 c.1958 © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

# Ynglŷn â'r Llwybr

Mae Sefydliad Celf Josef Herman wedi creu'r llwybr hwn fel dathliad o fywyd a gwaith yr artist Iddewig a'r ffoadur Josef Herman, a gafodd noddfa yn Ystradgynlais ar ôl ffoi o Warsaw yn ystod yr ail ryfel byd. Mae Herman yn enwog fel artist a ddogfennodd fywyd bob dydd y glowyr, ffermwyr a gweithwyr metel oedd yn byw yn yr ardal. Ysbrydolodd ei gyfnod yn Ystradgynlais etifeddiaeth barhaol ar bobl a diwylliant y gymuned lofaol fach hon sy'n nythu yng Nghwm Tawe. Drwy'r llwybr hwn rydym yn rhannu celf, ffotograffau a straeon er mwyn helpu i addysgu'r cenedlaethau ôl-ddiwydiannol am y dreftadaeth gyfoethog hon.

Mae'r llwybr yn dechrau yn Neuadd Les Y Glowyr sydd wedi bod yn lleoliad pwysig ar gyfer bywyd cymunedol ac sydd bellach yn gartref i'r Sefydliad a chasgliad o fwy na 150 o weithiau gwreiddiol Herman. Yna mae'r llwybr yn ymdroelli o amgylch y dref, gan ymweld â'r mannau lle'r oedd Herman yn byw ac yn gweithio ac yn cyflwyno'r bobl a'r lleoedd a ysbrydolodd ei gelf, nid yn unig yn ystod y blynyddoedd y bu'n byw yn Ystradgynlais, ond drwy gydol ei yrfa hir, ddisglair.

Bwriadwn ychwanegu at y llwybr yn barhaus a byddem yn annog pobl i rannu unrhyw straeon, delweddau, cyfryngau ac effemera sydd ganddynt, yn ymwneud â chyfnod Herman yn Ystradgynlais, i'n helpu i dyfu'r archif a chadw'r dreftadaeth gyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Hygyrchedd

Mae'r Llwybr Treftadaeth yn dilyn llwybr hawdd, gwastad o amgylch canol y dref, ond nodwch fod cyrraedd lleoliadau yng Nghwmgïedd a hen safle pwll glo Ynysgedwyn yn cynnwys bryniau bychain a llwybrau gwledig. I'r rhai sydd ag unrhyw anawsterau cerdded, gellir ymweld â Chwmgïedd mewn car, ac mae lle parcio'n agos iawn at fynedfa'r hen bwll glo sydd bellach yn warchodfa natur brydferth.

# Cynllunio eich Ymweliad

**Dod o hyd i ni** Neuadd Les y Glowyr, Ffordd Aberhonddu, Ystradgynlais, Abertawe, Powys, SA9 1JJ  Ffôn: 01639 843163

**Parcio** Mae dau brif faes parcio yn Ystradgynlais, y ddau ohonynt yn arhosiad hir, talu ac arddangos:
**Heol Eglwys** - SA9 1EY
**Heol Maes-Y-Dre** - SA9 1JH

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Yr orsaf drenau agosaf yw Gorsaf Castell-nedd
Mae gwasanaeth bws bob awr o Gastell-nedd ac Abertawe i Ystradgynlais

**Toiledau** Mae toiledau cyhoeddus ar Heol yr Orsaf, Ystradgynlais, SA9 1NT

**Lluniaeth** Mae llawer o gaffis ar hyd Heol yr Orsaf a Commercial Street yn Ystradgynlais

**Llety** Mae llawer o leoedd i aros dros nos yn Ystradgynlais a’r cyffiniau, gan gynnwys gwestai, Gwely a Brecwast, hunanarlwyo a meysydd pebyll. Ewch i www.airbnb.co.uk neu www.booking.com

**Gwybodaeth i Dwristiaid** I gael rhagor o wybodaeth am Ystradgynlais a'r cyffiniau, ewch i:
www.ystradgynlaistowncouncil.co.uk/local-information
https://www.canolbarthcymru.co.uk
www.tourismpowys.com

# Sut i Ddefnyddio'r Ap

Cliciwch ar y ddewislen i gael gwybodaeth ddefnyddiol am y llwybr, Sefydliad Celf Josef Herman a'n cyllidwyr, ac wrth gwrs, Josef Herman a'i wraig Catriona. Pan fyddwch yn barod i ddechrau cliciwch ar y botwm Dechrau a byddwch yn cael eich tywys drwy'r llwybr.

Os oes gan eich dyfais dderbynnydd GPS byddwch yn derbyn hysbysiad bob tro y byddwch yn cyrraedd pwynt lleoliad. Cliciwch ar eicon eich lleoliad ar y map a bydd ffenestr naid yn ymddangos gyda'r straeon, y delweddau, y gweithiau celf a'r cyfryngau eraill cysylltiedig. Pan fyddwch yn barod i symud ymlaen, dewiswch y lleoliad nesaf a bydd y map yn rhoi cyfarwyddiadau i chi.

# Josef Herman
# (1911-2000)



Llun gan Llew E. Morgan

*'Alla i ddim meddwl am fyw yn unman arall ond yng Nghymru, yng nghanol y Cymry yr wyf yn fwy na neb arall, wedi ymserchu'n llwyr ynddynt.'*

Artist o Wlad Pwyl oedd Josef Herman a gaiff ei gofio am ei ddarluniau o'r gymuned lofaol Gymreig yn Ystradgynlais. Ganed Herman yn Warsaw, Gwlad Pwyl ym mis Ionawr 1911, yr hynaf o dri phlentyn mewn teulu Iddewig tlawd. Cafodd ei addysgu tan yn 12 oed, gan ddod yn brentis argraffydd ac yna'n artist. Mynychodd Ysgol Gelf Warsaw rhwng 1930 a 1932 ac arddangosodd am y tro cyntaf yn Warsaw yn 1932.

Yn 1938 yn 27 oed, aeth o Wlad Pwyl i Wlad Belg oherwydd yr wrth-semitiaeth gynyddol cyn yr Ail Ryfel Byd. Ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd ac ymosodiad Yr Almaen ar Wlad Belg symudodd i Ffrainc ac yna i'r DU, gan gyrraedd yr Alban ac ymgartrefu yng Nglasgow yn 1940, lle arhosodd am bedair blynedd. Er bod Herman wedi dianc rhag ymosodiad y Natsïaid a'r erchyllterau dilynol, collodd ei deulu cyfan yn yr Holocost.

Yn 1944 ymwelodd ef a'i wraig gyntaf Catriona ag Ystradgynlais yng nghwm Tawe, ar wyliau, ond buont yn byw yno tan 1955. Fe'i dyfynnwyd yn ddiweddarach yn dweud: "Arhosais yma oherwydd des i o hyd i'r cyfan yr oedd ei angen arnaf. Cyrhaeddais yma'n ddieithryn am bythefnos; aeth y pythefnos yn 11 mlynedd." Daeth yn rhan fawr o'r gymuned leol lle cafodd y llysenw hoffus 'Joe Bach'.

Roedd arddull artistig Herman yn fentrus ac yn unigryw, a chafodd lawer o ysbrydoliaeth o'r gymuned lofaol Gymreig a'r gweithwyr yn enwedig y glowyr, delweddau y caiff ei gofio'n annwyl amdanynt.

*Two Miners 1960 © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*



# Catriona MacLeod (1913-1985)



*A briodolir i Llew E. Morgan*

Yn 1942, priododd Herman yr etifeddes wisgi Catriona MacLeod (1913-1985) yng Nglasgow. Roedd hi'n berthynas i 28ain Bennaeth Clan MacLeod o Gastell Dunvegan ar Ynys Skye, y Fonesig Flora MacLeod o MacLeod. Roedd Catriona, drafftiwr a cherddor talentog, yn astudio celf yng Nglasgow pan gyrhaeddodd Herman yno. Cyfarfu'r ddau mewn arddangosfa yn y ddinas, gan briodi yn y pen draw.

Yn 1944 aeth Catriona a Josef ar wyliau i Ystradgynlais, gan ymgartrefu yno hyd 1955. Ar ôl byw yn y neuad ddawnsio uwchben y Penybont Inn am sawl blwyddyn, prynon nhw hen ffatri bop a dyluniodd ac adeiladodd Catriona gartref a stiwdios ar gyfer y ddau ohonynt. Roedd hi, yn ôl y sôn, yn gymeriad hynod greadigol, bywiog ac afieithus a byddai'n cynnal soirees rheolaidd yn eu cartref, gan groesawu artistiaid, awduron a deallusion o Lundain a thu hwnt yn ogystal â'i ffrindiau lleol. Roedd hi wrth ei bodd â phlant ac unwaith fe gynhyrchodd bantomeim o 'Sinderela' i'r plant lleol, a gafodd ei berfformio ar lwyfan yn eu cartref. Ysgrifennodd y sgript, dyluniodd y gwisgoedd a chreodd set lawn gyda cherbyd oedd yn symud ar draws y llwyfan.

Roedd Catriona'n artist ei hun a dysgodd lawer iawn oddi wrth grefft ei gŵr fel peintiwr, ac roedd gan y ddau ohonynt stiwdios yn eu cartref yng Nghymru. Roedd Catriona'n bortreadydd profiadol ac yn paentio llawer o bobl leol. Fe'i gwelwyd hi'n aml yn braslunio o amgylch Ystradgynlais, gan ddal ysbryd y gymuned ddosbarth gweithiol a hithau wedi gwisgo yn ei chlogyn a'i beret lipa felfed, gyfarwydd.

Yn drist iawn, bu farw merch fach Josef a Catriona, Sandra, yn faban cyn iddynt ddod i Ystradgynlais; daeth eu priodas i ben yng nghanol y 1950au ac ailbriododd Josef. Dychwelodd Catriona i gartref ei theulu ar Ynys Skye lle parhaodd i beintio tan ei marwolaeth ym 1985.



*Still Life gan Catriona, Casgliad preifat*



*Portread o Caryl Roese by Catriona. Casgliad preifat*

# 1 Neuadd Les y Glowyr




*Llun o Neuadd Les y Glowyr pan gafodd ei adeiladu gyntaf*

Neuadd Les y Glowyr yw cartref Sefydliad Celf Josef Herman a'u casgliad o waith celf gan Josef Herman, a dyna pam rydym yn dechrau'n taith yma. Mae hwn yn gartref addas i'r Sefydliad oherwydd yn ystod y cyfnod yr oedd Josef Herman yn byw yn Ystradgynlais roedd yr adeilad hanesyddol hwn yn ganolbwynt bywyd diwylliannol y pentref ac mae'n parhau i fod felly hyd heddiw.

Roedd y lleoliad yn gartref i ddosbarthiadau a grwpiau rheolaidd, gan gynnwys y clwb camera a gynhaliwyd gan ffrind oes i Herman - y ffotograffydd Llew E Morgan, yn ogystal ag amrywiaeth o gyngherddau a digwyddiadau cymdeithasol. Roedd Herman ei hun yn gadeirydd Côr Meibion Ystradgynlais ddiwedd y 1940au ac roedd y grŵp yn aml yn ymarfer ac yn perfformio yno. Roedd hefyd yn ymwelydd rheolaidd ag ystafell ddarllen Neuadd Les y Glowyr, lle byddai'n bwrw golwg tawel dros y papurau newydd lleol a chenedlaethol.

# 2 Teddy Bear Bridge

*"Ar Teddy Bear Bridge, fe gwrddais i â thair menyw feichiog. Roedd eu siapiau'n enfawr ac iddynt harddwch daearol."*

Pont droed fechan yw Teddy Bear Bridge sy'n croesi Afon Tawe wrth iddi lifo drwy ganol y pentref. Mae gan y bont hanesyddol orffennol anffodus, gan iddi gael ei dinistrio gan lifogydd ac yna ei hailadeiladu lawer gwaith dros y blynyddoedd. Dywedir y gallai'r enw fod yn cyfeirio at osgo'r glowyr wrth iddynt gerdded ar draws ei hestyll sigledig, ond dyfalu yn unig yw hyn ac mae yna ddamcaniaethau eraill yn bodoli.



*Llun o'r Teddy Bear Bridge 1955,*
*© The Francis Frith Collection*

Byddai wedi bod yn bosibl gweld y bont o ben draw Stryd Oddfellow, lle arhosodd yr Hermans gyda Dai Alexander Williams a'i wraig Peggy, am wyliau byr cyn penderfynu aros yn barhaol. Bu'r bont yn ysbrydoliaeth i lawer iawn o frasluniau a phaentiadau Josef, wedi iddo weld y glowyr yn ei chroesi yn fuan ar ôl iddo gyrraedd Ystradgynlais.



*View from the bridge Ystradgynlais (Notes from a Welsh Diary) 1947 Inc ar bapur © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

Yn ei ddyddiaduron mae Josef yn cofio un weledigaeth o'r fath: "Ar Teddy Bear Bridge, fe gwrddais i â thair menyw feichiog. Roedd eu siapiau'n enfawr ac iddynt harddwch daearol. Ochr yn ochr â'r tair yma fe fyddai pob Fenws yn edrych fel merched gwelw." Brasluniodd Herman ac yn ddiweddarach fe baentiodd lawer o ddelweddau o lowyr, a ddaeth yn fuan i ddominyddu ei eiconograffeg, yn croesi'r bont wrth iddynt fynd a dod o'r pwll glo yn Ynyscedwyn.

# 3 Penybont Inn


*Llun o Josef Herman a Catriona yn y stiwdio yn y Penybont Inn. © Ystâd Llew E Morgan*

Bu'r Penybont Inn, gyda'i landlordiaid Mr a Mrs Hodge a ddaeth yn ffrindiau da i'r Hermans, yn gartref i Josef a Catriona yn fuan wedi iddynt gyrraedd Ystradgynlais. Roeddent yn rhentu ystafell fyw, ystafell wely a'r 'neuadd ddawns' a ddaeth yn stiwdio i Josef. Tra'n aros yn y Penybont fe baentiodd ac fe ddarluniodd Herman rai o'i brif weithiau, gan gynnwys portreadau o Catriona, y fam a'r plentyn a'r glowyr lleol Llew 'North' Jones, Sid Bowen a Henry John Williams, sêr y ffilm *The Silent Village* yn 1942. Roedd y cwpl yn byw yno nes i'r Hodges benderfynu rhoi'r gorau i'r dafarn a symud ymlaen; yna fe brynodd yr Hermans yr hen 'Ffatri Bop' a'i throi'n gartref a stiwdios.

Roedd ffenestri mawr y neuadd ddawns yn edrych dros Afon Tawe a Phont Ystrad, a ddarluniwyd gan Herman yn ei frasluniau. Dywedodd "mae yna batrwm i fywyd yma. Fel arfer rwyf wedi codi erbyn 5am, weithiau hyd yn oed cyn hynny. Mae 'na dipyn o amser yn mynd heibio nes y byddaf yn clywed synau cyntaf yr esgidiau hoelion islaw fy ffenestr... Mae rhai [glowyr] yn edrych i fyny ac yn codi llaw i'm cyfarch."

Yn fuan wedi iddynt gyrraedd Cymru, tra'n byw yn y Penybont Inn, fe brynodd Catriona gar salŵn Humber mawr a chafodd ei drawsnewid i'r hyn a elwir bryd hynny yn 'shooting break' neu'n wagen fach. Byddai hyn wedi bod yn dipyn o olygfa i'r bobl leol ar adeg pan mai ond y plismon lleol a'r pregethwr oedd yn berchen ar gerbyd modur. Roedd gan Catriona bersonoliaeth tanbaid ac roedd wrth ei bodd yn yr awyr agored, yn enwedig wrth y môr. Mae Caryl Roese, merch Dai a Nancy Roberts, a arferai helpu i gadw tŷ i'r Hermans, yn cofio mwynhau tripiau i lan y môr a phicnics yng nghefn gwlad gyda'i theulu a Catriona.

# 4 'Siop Jim Bach' yn Red Square

Roedd y siop bapur newydd a'r siop ar gyrion y prif Sgwâr yn Ystradgynlais a'r perchennog oedd Jim Lewis. Byddai Josef yn ymweld â Jim yn ei siop, lle byddai'n prynu ei bapurau newydd a'i dybaco. Byddai Herman, ynghyd â llawer o rai eraill yn treulio amser yn y siop yn sgwrsio am eu credoau gwleidyddol adain chwith.
Bu Jim yn ffrind gydol oes i Josef. Fe'i cofiwyd am ei haelioni a'i garedigrwydd anhygoel, gan yn aml roi losin am hanner eu pris os nad oedd gan blentyn ddigon o arian.


*Mr a Mrs Jim Lewis yn nrws ei siop. Oddiwrth 'Faces and Places of the Parish of Ystradgynlais' gan T.J Davies*

Byddai Herman yn aml i'w weld ar y sgwâr a 'Phont Ystrad' sy'n croesi'r afon ochr yn ochr ag e, yn braslunio ac yn sgwrsio â'r glowyr fyddai'n mynd heibio ar eu ffordd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

Dathlwyd diwedd yr ail Ryfel Byd yn 1945 a Diwrnod VE yn Ystradgynlais, fel ym mhobman arall, gyda llawenydd a rhyddhad ond hefyd gyda thristwch am y rhai a fu farw. Roedd y dref wedi'i haddurno â baneri a bynting, roedd yna bartïon stryd gorfoleddus gyda cherddoriaeth a chanu. Roedd dawnsio ar y Groes (ychydig i fyny'r ffordd o'r sgwâr) i sŵn Band Ystradgynlais gyda Catriona yn ymuno'n llawn cyffro ac yn dysgu'r bobl leol sut i ddawnsio'r Highland Fling.

# 5 Pont Ystrad

*"Fe wnaeth y ddelwedd hon o'r glowyr ar y bont yn erbyn yr awyr gwridog yna fy syfrdanu am flynyddoedd gyda'i chymysgedd o dristwch a mawredd."*



*Sketch of the bridge Ystradgynlais, 1953. © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

Ar Bont Ystrad gwelodd Herman y glowyr yn cerdded adref o'r pwll glo am y tro cyntaf ac fe gafodd, yr hyn a ddisgrifir fel epiffani; profiad lled-grefyddol y mae ei ail wraig, Nini, yn ei esbonio yn ei llyfr 'A Working Life', fel ei weld yn mynd i "ryw fath o freuddwyd" pan fyddai'n sôn am y profiad.

Yn 1975, ysgrifennodd Herman yn ei ddyddiaduron, "Dychwelais yn aml i liw a theimlad yr awyr hwnnw! Roedd ei olau'n cochi waliau cerrig y bythynnod ac amlinelliadau'r coed moel. Roedd gan reiliau a blociau sment y bont amlinelliad euraidd. O dan y bont, allan o gysgod oer, fe lifai pwll o ddŵr yn araf gan deneuo wrth iddo lifo yn ei flaen dros y cerrig sychion a'r cerrig mân disglair. Yna, yn hollol annisgwyl, fel pe baent wedi dod o unman, camodd grŵp o lowyr ar y bont. Am eiliad ymddangosodd eu pennau yn erbyn yr haul yn ei gyfanrwydd, fel yn erbyn disgen felen – roedd y ddelwedd yn debyg i eicon yn darlunio'r seintiau gyda'u heurgylchau. Gyda'r golau'n eu hamgylchynu, roedd silwetau'r glowyr bron yn ddu. Gyda chamau cyflym croeson nhw'r bont ac fel cathod ofnus, gwahanon nhw oddi wrth ei gilydd, pob un yn mynd ei ffordd ei hun. Cefais fy llorio gan fawredd yr olygfa hon."

"Bu'r ddelwedd hon o'r glowyr ar y bont yn erbyn yr awyr gwridog honno yn fy syfrdanu am flynyddoedd gyda'i chymysgedd o dristwch a mawredd, a daeth yn ffynhonnell fy ngwaith am flynyddoedd i ddod... Gwnaeth y ddelwedd honno fi'n sicr hefyd, mai'r pentref hwn oedd y lle i mi. Teimlais fy ngwacter mewnol yn llenwi."

# 6 'Catria' - Stiwdio Joe



*Josef yn y stiwdio, y tu ôl iddo mae'r astudiaethau ar gyfer paneli'r Glowyr a'r paentiad 'South Wales'. Llun © Ystâd Llew E Morgan*

Yng nghanol y 1940au prynodd Josef a Catriona hen ffatri bop, a fyddai wedi bod yn bosibl ei gweld o ffenestri eu hystafell yn y Penybont Inn, gyda'r bwriad o'i throi'n gartref gyda stiwdios ar gyfer y ddau ohonynt. Gweithiodd Catriona gyda phensaer lleol ar gynlluniau i drosi'r adeilad, gan gynnwys stiwdio â nenfwd uchel gyda tho gwydr wedi'i gynllunio er mwyn llenwi gweithle Josef gyda golau naturiol. Cyflogodd Catriona amryw o weithwyr lleol i wireddu ei gweledigaeth gan gynnwys Islwyn Thomas, Dai Alex, a oedd yn saer coed talentog, a Dai Roberts a adeiladodd ran o'r tŷ ac a greodd bwll lili hardd wedi'i lenwi â physgod yn yr ardd flaen. Enwodd Josef y tŷ yn 'Catria' i anrhydeddu ei wraig ar y pryd.

Byddai Catriona, a ddisgrifiwyd fel cymeriad ecsentrig, hynod greadigol, bywiog ac afieithus, yn mynd i Lundain yn aml ar deithiau siopa ac yn dychwelyd gydag eitemau moethus gan gynnwys peiriant golchi llestri, rhywbeth nad oedd sôn amdanynt bryd hynny. Dychwelodd unwaith gyda rỳg o groen Arth Wen, gan godi arswyd ar Josef a wrthododd adael iddi ei gadw yn yr ystafell fyw, felly arhosodd hwnnw yn ei stiwdio hi.

Roedd Caryl Roese, oedd â'i mam, Nancy yn ffrind agos i'r Hermans ac a helpai Catriona o gwmpas y cartref, yn ymwelydd cyson â'r stiwdio ac yn cofio cariad Catriona tuag at blant. Mae hi'n adrodd un stori am Catriona yn cynnal drama  'Sinderela' i'r plant lleol. Ysgrifennodd y sgript, dyluniodd y gwisgoedd a chreodd set gyda cherbyd a oedd yn symud ar draws y llwyfan. Perfformiwyd y ddrama ar lwyfan yr oedden nhw wedi'i adeiladu yn eu hystafell fyw.

Byddai Catriona a Josef yn cynnal soirees rheolaidd yn eu cartref, gan ddiddanu ffrindiau lleol, artistiaid, awduron a deallusion o Lundain a thu hwnt. Byddai yna gerddoriaeth a chanu a thrafod brwd. Mae Caryl Roese yn cofio sut y byddai hi a'i theulu yn cael gwahoddiad rheolaidd i ymuno a byddai Caryl yn canu neu Catriona yn canu'r piano. Roedd ymwelwyr mynych yn cynnwys ffrind da a chyd-arlunydd Martin Bloch a'i wraig Lottie, yr artist Will Roberts, y ffotograffydd T.J. Davies a'r nofelydd Menna Gallie un o'r ychydig fenywod o Gymry a fyddai'n modelu'n noeth i Herman.

Yn ogystal â bod yn gerddor medrus, roedd Catriona yn artist ei hun ac fe ddysgodd hi gryn dipyn o grefft ei gŵr fel paentiwr. Roedd hi'n brofiadol iawn yn paentio portreadau ac fe baentiodd nifer o unigolion lleol. Fe'i gwelir hi'n aml yn braslunio o gwmpas Ystradgynlais, gan ddal ysbryd y gymuned ddosbarth gweithiol a hithau wedi gwisgo yn ei chlogyn a'i beret lipa felfed, gyfarwydd. Yma hefyd, yn ei stiwdio 'Catria' y creodd Herman ei ddarn diffiniol, yr un a lansiodd ei yrfa, 'Glowyr', a gomisiynwyd ar gyfer Pafiliwn Mwynau'r Ynys yng Ngŵyl Prydain yn 1951. Mae'r gwaith, ar ffurf chwe phanel, yn darlunio chwe glöwr yn gorffwys uwchben y ddaear ar ôl gorffen eu shifftiau yn y lofa leol. Dywedodd Herman am y darn "Rwy'n credu ei fod yn un o'm prif luniau a'r un pwysicaf a wnes i yng Nghymru." Mae e bellach yn Oriel Glynn Vivian, casgliad parhaol Abertawe.

Ymwelodd David Bell â Herman yn ei gartref yn Ystradgynlais yn ystod hydref 1950 tra'r oedd yn paentio gan gynnig ei gyngor ar y darn. Cerddon nhw ar hyd y gamlas yn ddiweddarach gan drafod barddoniaeth. Roedd David Bell yn ffrind ac yn fentor i Herman, a hyrwyddodd yr artist trwy ei rôl yng Nghyngor Celfyddydau Cymru gan ei helpu i ennill cydnabyddiaeth, a rhoi cyfleoedd iddo arddangos gan gynnwys fel rhan o daith o amgylch deg oriel.Yn ei sgwrs 'The Art of Josef Herman' a ddarlledwyd ar y BBC World Service yn 1948 cyflwynodd Bell Herman yn frwdfrydig i gynulleidfa fwy fyth a talodd Herman deyrnged i Bell drwy ddweud mai fe oedd yr "unigolyn a wnaeth y gwaith arloesol mwyaf ar ôl y rhyfel".

Yn fuan wedi'r cyfnod hwn, aeth Josef yn sâl ac fe dreuliodd lawer o'r ddwy flynedd nesaf yn Llundain ac, ar gyngor ei feddygon, yn teithio i wledydd poeth, yn enwedig Sbaen. Ym 1955 gwahanodd yr Hermans yn swyddogol gan adael Ystradgynlais, a gwerthu eu hen gartref a'u stiwdio i'w ffrindiau da, Dai a Peggy Alexander Williams.

Daeth Dai a Peggy o hyd i nifer o nodiadau a brasluniau pan symudon nhw i'r tŷ a gofynnon nhw i Joe beth ddylen nhw wneud â nhw, eu taflu meddai fe! Yn ffodus i ni gwnaethon nhw'u cadw ac mae'r casgliad wedi ei gadw hyd heddiw gan Betty Rae Watkins, nith Dai a Peggy sy'n byw yn y stiwdio.

Yn dilyn ei farwolaeth yn 2000, anfonodd ei wraig ar y pryd, Nini Herman, beth o'i lwch i Gymru i'w wasgaru yn ei hen gartref, y lle oedd mor annwyl iddo.



*In the Miners Arms 1954 inc a dyfrlliw ar bapur © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

# 7 Adeiladau Gough

Adeiladau Gough oedd enw'r stryd lle'r oedd 'Catria' cartref Josef a Catriona. Roedd yn agos at Oddfellow Street, lle'r oedd ganddynt lawer o ffrindiau, ac wedi'i amgylchynu gan siopau a thafarndai lleol bryd hynny. Roedd y Butchers Arms ar Pelican Street ac ar Adeiladau Gough - The Star Inn a'r Miners Arms gyferbyn â'r stiwdio.

Er nad oedd yn un am gymdeithasu yn y tafarndai lleol yn rhy aml, byddai Josef yn ymweld i gwrdd â ffrindiau a glowyr lleol. Y Miners Arms yw'r lle y mae'n sôn amdano amlaf yn ei ddyddiaduron ac mae'n ysbrydoliaeth i un o'i ddarluniau.

Mae ganddo atgof doniol, pan ddaeth "merlod i lawr o'r bryniau. Buont yn crwydro dros y pentref ac yn pori lle'r oedd glaswellt neu'n sefyll yn llonydd ar y ffyrdd asffalt. Roedd pobl yn garedig wrthyn nhw. Roedd y plant o'u cwmpas gyda moron. Yn sydyn roedd rhywun yn teimlo bod y pentref yn gyfoethog o blant ac o foron! Gofalus ferlen fach paid â chrwydro i ardd breifat! Sa'n llonydd yn union fel yr wyt ti ac edrycha drwy'r ffens. Yna bydd hen ddyn yn dod at y giât ac yn mwytho dy ben. Siaradodd yr hen ddynion â'r plant. Roedd pawb yn llon. Diolch i'r merlod roedd ryw gynnwrf hapus. Mae nhw'n dod â bywyd gyda nhw, mwy o liw i'r pentref. Am y rhan fwyaf o'r dydd, nhw oedd y ddigwyddiad a gyda'r nos yn y Miners Arms neu'r Penybont Inn, 'y merlod gwyllt o'r mynydd' oedd canolbwynt pob sgwrs.

Mae gennym lythyr craff gan Herman at ffrind iddo, o gasgliad preifat Annette Williams, un o Ymddiriedolwyr y Sefydliad, lle mae'n disgrifio'r ysbrydoliaeth y tu ôl i'w ddarn 'Miner and Child'. "[Ar] brynhawn cynnes, di-aer yr hydref hwnnw, cerddais ar hyd y stryd fach rydym bellach yn byw arni (Adeiladau Gough). Roedd cryn dipyn o lowyr silicotig, sâl yn nrysau eu cartrefi, yn fyr eu

gwynt... Ymhellach ymlaen, drwy ffenestr agored gwelais hen löwr nad oedd eto wedi cael cyfle i ymolchi na newid ei ddillad gwaith, wedi'i lapio yn y ffordd Gymreig mewn siôl â phlentyn sâl ar ei fraich. Roedd y plentyn yn pesychu'n gyson, ei wyneb yn goch ac yna'n felyn. Gwyliais hyn am amser hir. Roedd mor drist fel na allwn ganfod unrhyw reswm dilys dros y dioddefaint, ein cydymaith cyson o'r crud i'r bedd. Teimlais mor emosiynol wrth gau fy hun yn ddiweddarach y noson honno yn y stiwdio a cheisio darlunio'r gymysgedd ryfedd hon o ddioddefaint, tynerwch a dwyster." Aiff ymlaen i ddweud sut y bu iddo rwygo'i waith y noson honno ac ni aeth yn ôl i ailystyried y darn tan ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Cofia Caryl Roese sut y byddai Catriona yn eistedd allan yn y stryd, yn edrych i lawr Adeiladau Gough, ac yn paentio'r hyn oedd o'i chwmpas. Mae lleoliad y paentiadau hynny'n anhysbys ond efallai fod gan rywun sy'n darllen hwn rywfaint o wybodaeth fydd yn ein galluogi i ddod o hyd iddynt!

# 8 Hen Gamlas

*"Yr holl ffordd ar hyd y gamlas meddyliais am y ffyrdd gwych y mae'r syniadau ar gyfer lluniau yn ffurfio. Mae pob llun yn plannu'r hedyn ar gyfer yr un nesaf."*



*Catriona MacLeod efo Dai & Nancy Roberts, y gamlas Ystradgynlais. Priodoli i Michael Peto*



*Sketch of the canal in Ystradgynlais c.1947/8 inc ar bapur © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

Ar un adeg roedd yna gamlas o Abercraf i Abertawe, drwy Ystradgynlais, a ddefnyddiwyd i gludo cynnyrch diwydiannol. Yn anffodus fe'i llenwyd a'i ddisodli yn y 1970au gan brif ffordd yr A4067 i Aberhonddu, ond roedd y gamlas yn nodwedd amlwg iawn o'r dref yn ystod cyfnod Josef a Catriona. Mae Josef yn sôn amdani sawl gwaith yn ei ddyddiaduron wrth iddo gofnodi'r teithiau cerdded a fwynhaodd ar hyd y gamlas ar ei ben ei hun, gyda Catriona ac yng nghwmni ffrindiau. Byddai'n aml yn mentro ymhellach, i fyny i'r mynyddoedd ac ar hyd y cymoedd.

Byddai Herman yn braslunio ger y gamlas ac mae nifer o luniau adnabyddus yn darlunio'r olygfa, ond ei brif destunau oedd pobl a diwydiant. Roedd yn fwy tebygol gweld Catriona allan yn paentio'r tirluniau lleol.

Daeth Michael Peto, a oedd wedi ffoi rhag erledigaeth yn Hwngari ddiwedd y 1930au wrth i'r wlad gynghreirio ag Almaen Hitler, yn ffrind da i Josef a byddai'n ymweld ag ef yn Ystradgynlais o dro i dro. Roedd Peto'n fotograffydd ac yn newyddiadurwr i'r Observer ac mae'n adnabyddus am dynu ffotograffau o'r pentref glofaol yng Nghymru. Ar un ymweliad o'r fath, tynnodd ffotograffau o daith gerdded ar hyd y camlesi gyda Josef a Catriona a ffrindiau agos i'r teulu Dai a Nancy Roberts a'u merch Caryl.

# 9 Stryd Oddfellow

*"Rydyn ni'n byw mewn pentref glofaol, Ystradgynlais, ac rydw i'n gweithio ym mhwll glo Ynyscedwyn, gallwch chi aros gyda ni nes i chi ddod o hyd i le mwy cyfforddus, hynny yw os ydych chi'n hoffi Ystradgynlais".*



*Llun o Dai Alexander Williams gan TJ Davies*



*Llun o Peggy Williams gan TJ Davies*

Ymwelodd Josef Herman a'i wraig gyntaf, Catriona MacLeod, ag Ystradgynlais fis Mehefin/ Gorffennaf 1944 yn dilyn cyfarfod wedi'i drefnu gyda Dai Alexander Williams drwy gyfaill i'r ddau, y newyddiadurwr Iddewig a'r awdur David Martin. Roedd Dai Alex, fel y'i gelwid ef, yn löwr, yn saer, yn fardd ac yn ôl Herman yn "awdur straeon byrion dawnus".

Mae Herman yn disgrifio sut y digwyddodd y cyfarfod a'r ymweliad dilynol "Ar hap, fel sy'n digwydd yn aml i fi. Roedd fy ngwraig sy'n Albanes, Catriona, yn feichiog ac roedd angen iddi, yn ôl y meddygon, ddianc o Lundain adeg y rhyfel er mwyn cael gorffwys. Awgrymodd ffrind sy'n newyddiadurwr (David Martin), a oedd newydd ddychwelyd o Gymru, y dylen ni fynd yno. Alla i ddim dweud pam na sut y cyrhaeddom ni Aberhonddu. Roedd Aberhonddu bryd hynny mor swnllyd â Piccadilly Circus. Milwyr Americanaidd a merched a chwerthin tan yr oriau mân, bob nos. Yna, ar ein nos Sadwrn gyntaf, cyrhaeddodd ymwelydd rhyfedd ein gwesty, saer a oedd yn gweithio mewn pwll glo ac a oedd hefyd yn ysgrifennu straeon byrion, Dai Alex Williams. Cyrhaeddodd gyda'i flonden o wraig gyfeillgar, Peg. Yn ôl pob tebyg, ysgrifennodd fy nghyfaill yn Llundain at Dai Alex, gan ddweud wrtho ble oedden ni a gofyn iddo gysylltu â ni. Dyma sut y dechreuodd pethau. Yn ystod ein sgwrs â'r ddau Williams, dywedais mai'r hyn yr oeddem am ei gael mewn gwirionedd oedd llety am ychydig wythnosau, yn y cymoedd, yn un o'r pentrefi glofaol os oedd modd. Dywedodd Dai Alex "Rydyn ni'n byw mewn pentref glofaol, Ystradgynlais, ac rydw i'n gweithio ym Mhwll Glo Ynyscedwyn, gallwch chi aros gyda ni nes i chi ddod o hyd i le mwy cyfforddus, hynny yw os ydych chi'n hoffi Ystradgynlais"

Arhosodd yr Hermans gyda Dai a Peggy yn eu cartref yn Stryd Oddfellow am ychydig wythnosau cyn penderfynu aros yn barhaol a rhentu ystafell uwchben y Penybont Inn, lle buon nhw'n byw am sawl blwyddyn.

Cyn bo hir, daeth yr Hermans yn ffrindiau gyda dau o drigolion eraill Stryd Oddfellow - Dai a Nancy Roberts a'u merch Caryl Roese a fu'n cadw mewn cysylltiad gyda Catriona a Josef ymhell ar ôl iddynt adael. Caiff eu stori ei hadrodd wrth yr Hen Gamlas ac yn 'Catria' - Stiwdio Joe yr helpodd Dai i'w hadeiladu a lle bu Nancy yn gweithio fel cymorth yn y cartref ond, yn fwy na hynny, lle ddaeth hi'n ffrind oes i Catriona.

Yn ei lyfr *Related Twilights*, mae Herman yn hel atgofion am ei brynhawn cyntaf yn y pentref tawel a sut y gallai weld "yn y pellter, bryniau isel fel cŵn yn cysgu ac uwchben y bryniau, awyr lliw copr", a'r effaith barhaol a gafodd yr olygfa honno arno.


"Toeau fioled wrth droed bryniau gwyrdd. Pyramidiau o dipiau du wedi'u hamgylchynu gan goed tebyg i gymylau lliw poteli tywyll. Pan fydd yr haul yn ymddangos ac yn lliwio'r aer, mae'r strydoedd, sydd fel arall yn llwyd unffurf, yn troi'n frown copr. Mae hyn yn digwydd gyda'r nos fel arfer, gan fod y rhan fwyaf o'r dyddiau y tu ôl i sgrin o law araf, oer a glas fel llwch dur." Fel y dywedodd un o'r trigolion lleol wrtho "Felly mae bywyd yma, yn llwyd yn bennaf, ond mae 'na hefyd ddiferyn o

aur ynddo". Roedd y lliwiau a welodd yn y weledigaeth hon yn rhan o balet yr artist a ddaeth yn ddiweddarach i ddiffinio ei waith.

"Dydych chi ddim yn ddieithryn yma" dywedwyd wrth Josef ar y diwrnod y cyrhaeddodd ac yn fuan wedyn cafodd y llysenw annwyl 'Joe Bach', ac yn wir roedd Josef yn fach o ran maint, ond mae'r llysenw hefyd yn pwysleisio hoffter pobl ohono.

Roedd Josef, y teithiwr Iddewig alltud, wedi canfod ymdeimlad o berthyn a diogelwch yn y pentref, ymhlith ei gymuned ddosbarth gweithiol, agos.

## 10 Cwmgïedd



*Llun o Sid Bowen. Casgliad preifat © Ystâd Josef Herman.*



*Llun o Henry John Williams. Casgliad preifat © Ystâd Josef Herman.*



*Llun o Llew Jones (North) olew ar gynfas a roddwyd gan deulu Jeffreys © Ystâd Josef Herman*

Yn 1943 rhyddhawyd y ffilm bropaganda *The Silent Village*, a gyfarwyddwyd gan Humphrey Jennings, gan Uned Ffilm y Goron. Ysbrydolwyd y ffilm gan gyflafan Lidice a oedd wedi digwydd, yn Czechoslovakia bellach y Weriniaeth Tsiec, y flwyddyn flaenorol.

Yn dilyn llofruddiaeth y Llywodraethwr Natsïaidd rhanbarthol, Reinhard Heydrich, yng Ngwanwyn 1942, canfu ymchwiliad guddwybodaeth a oedd yn camgysylltu'r llofruddion â phentref Lidice. Gorchmynnodd Hitler ddial ffyrnig a dienyddiodd y Natsïaid bob gwryw a oedd yn byw yn y pentref, anfonwyd y menywod i wersylloedd rhyfel a'r plant i wersylloedd neu ar gyfer eu 'Halmaeneiddio".

Yn sgil y gyflafan honno recriwtiwyd trigolion Ystradgynlais a Chwmgïedd - glowyr a'u teuluoedd, siopwyr, athrawon ysgol, undebwr llafur, diaconiaid a chynulleidfa'r capel a phlant yr ysgol - i berfformio yn ffilm fer Jennings. Cafodd digwyddiadau Lidice eu trosi i bentref glofaol Cymru, gan ddangos creulondeb y Natsïaid a bywyd dan reolaeth ffasgaidd fel pe bai wedi digwydd yng Nghymru.

Heb os roedd Herman yn ymwybodol o'r ffilm cyn symud i Gymru a phan rhyddhawyd y ffilm rhoddwyd Ystradgynlais ar y map. Ar ôl iddo gyrraedd y pentref, ac wrth fyw yn y Penybont Inn, aeth ati i fraslunio a phaentio nifer o'r trigolion lleol amlycaf i serennu yn y ffilm, y glowyr - Llew 'North' Jones, Sid Bowen a Henry John Williams. Nodwyd hefyd ei fod wedi gweld y ffilm yn y sinema Astoria leol yn 1945 pan gafodd ei ddangos eto.

Roedd yr amser yn arwyddocaol. Roedd De Cymru, ar ôl trechu ffasgaeth, yn fyw yn wleidyddol, gyda chyffro trefn newydd. Roedd Llywodraeth newydd, Llywodraeth Atlee, cyfleustodau cyffredin wedi'u gwladoli, a'r Bwrdd Glo Cenedlaethol, y Gwasanaeth Iechyd a'r Wladwriaeth Les wedi'u

sefydlu. Roedd optimistiaeth gwyllt ar ôl y rhyfel, ac ymdeimlad o bwrpas yn arwain at ddyfodiad Prydain fodern.

Byddai profiad pobl Ystradgynlais wrth gymryd rhan yn *The Silent Village* wedi eu gwneud yn sensitif i beryglon ffasgaeth ac wedi rhoi empathi iddynt gyda thrafferthion a dioddefaint ffoaduriaid yr Holocost. Dyma'r gymuned a groesawodd Herman, a oedd wedi colli ei deulu yn yr Holocost, ac a gynigiodd noddfa iddo.

# 11 Ynyscedwyn Colliery

*"Y glöwr yw cofeb llafur ar ddwy droed .... trawiadol ac unigol"*




*Llun o baner Lodge Ynyscedwyn o 'Faces and Places of the Parish of Ystradgynlais' by T.J Davies*

Roedd y cyfnod wedi'r rhyfel ym Mhrydain ac ethol Llywodraeth Lafur dan arweiniad Clement Attlee, yn gyfnod o optimistiaeth. Fe'i nodwyd drwy ailddychmygu sut y gellid trefnu cymdeithas yn well er mwyn creu byd mwy teg a chyfiawn. Ymhlith trigolion dosbarth gweithiol Ystradgynlais, roedd y meddylfryd gwleidyddol sosialaidd, adain chwith hwn yn gyffredin; yn wyllt hyd yn oed.

Arweiniodd diwygiadau radicalaidd at sefydlu rhwyd ddiogelwch gymdeithasol, gan gynnwys sefydlu'r Wladwriaeth Les a'r GIG, ar gyfer poblogaeth a oedd wedi llwyr ymlâdd o ganlyniad i ryfel a cholled. Ym 1946 sefydlwyd y Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB) ac fe wladolwyd y diwydiant glo, gan rymuso gweithwyr. Ffrind da Herman, y glöwr Dai Alex, oedd cadeirydd Cyfrinfa Ynyscedwyn oedd yn gysylltiedig â Ffederasiwn y Glowyr ac Undeb Cenedlaethol newydd y Glowyr (1945). Gadawodd Ystradgynlais yn 1949 i fod yn swyddog arddangosfeydd i'r NCB yn Llundain. Mwynhaodd y ddau ffrind sawl dadl wleidyddol dda. Disgrifiwyd Herman fel chwith eithaf o ran ei ddaliadau gwleidyddol ac felly canfu undod a chyfeillgarwch ymhlith gweithwyr a glowyr y cymoedd. Wrth ysgrifennu yn ei 80au, dywed Josef "Ystradgynlais oedd y lle olaf i mi gysylltu lle gyda delfrydau."

Mae Herman yn sôn am pan gyrhaeddodd Ystradgynlais am y tro cyntaf y teimlai bod yn rhaid iddo dreulio ei amser yn "braslunio ac yn siarad â glowyr ar yr wyneb ac o dan ddaear, yn y gwaith a thra'n gorffwys, gan astudio eu symudiadau a'u hymddangosiad." Rhoddodd y glowyr ffynhonnell ddiddiwedd o ysbrydoliaeth iddo, a barhaodd ymhell ar ôl iddo adael Cymru.

Pam glowyr? Roedd Herman yn fynegegiadwr. Roedd realaeth yn mynd dan ei groen, gan nad oedd ganddo yr hyn sy'n "frith ym myd natur, sef y pŵer i gyffwrdd ein teimladau". Does dim yn fwy real



*Sketch of three miners waiting for a lift 1946 inc a dyfrlliw ar bapur © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*



*Sketch of coal trucks. Inc a dyfrlliw ar bapur © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*



*Miner on a bike. Casgliad preifat © Ystâd Josef Herman.*

na'r glowyr a'u gwaith peryglus o dan y ddaear yn "wynebu marwolaeth fel rhan o fywyd.. felly mae nhw'n poeni'n ddiffuant am fywydau ei gilydd. Rhaid i ddynion roi help llaw i'w gilydd. Maen nhw angen ei gilydd os mai ond er mwyn sgwrs – neu i leddfu'r galon."

Yn ei draethawd 'A Welsh Mining Village' a gyhoeddwyd gyntaf yn y 'Welsh Review' yn 1946, mae Herman yn disgrifio ei argraffiadau cynnar o Ystradgynlais, ei liwiau a'i bobl gyfarwydd; a'r epiffani a gymhelloedd ei waith artistig o'r pwynt hwnnw ymlaen. Fe'i ysbrydolwyd gan ei arsylwadau o lowyr i ysgrifennu "Y glöwr yw dyn Ystradgynlais... Weithiau roeddwn i'n meddwl am hen gerfiadau'r Aifft yn troedio rhwng yr awyr a'r ddaear, neu greigiau tywyll wedi'u gweithio'n siapiau dynol gogoneddus, neu foncyffion trwm lle mae llaw gyntefig wedi ceisio cyfosod balchder llafur dynol a'r grym tawel sy'n addo gwarchod ei urddas. .. Byddai'n wir dweud mai'r glöwr yw cofeb llafur ar ddwy droed."

## 12 Astoria Cinema a Thŷ Llew Morgan

*"Ar y ffordd gul, bryniau uchel lliw mwsogl ac awyr fechan... buom yn siarad am atyniad rhyfeddol lleoedd ynysig."*



*Photo of Josef Herman and his friend Llew E Morgan at Llew's home, 'Merton'*

Dywedir wrthym fod Josef a Catriona yn mwynhau mynd i'r sinema a bod Joe yn hoff o wylio cartwnau newydd Disney, gan edmygu sgil y cartwnydd. Fe'u cofir yn eistedd yn y seddi rhad gyda'r plant, ym mlaen y sinema ambell i ddydd Sadwrn, er mawr syndod i'r trigolion lleol. Yn ystod y 1940au roedd ymweld â'r sinema yn boblogaidd iawn ac roedd yr Astoria'n dangos prif ffilmiau Hollywood. Gwelodd Josef lawer o'r rhain gan gynnwys Caesar and Cleopatra, The Rains Came, Pygmalion a Henry V.

Yn 1945 dangoswyd *The Silent Village* eto, y ffilm propaganda amser rhyfel a oedd wedi'i gwneud yng Nghwmgïedd, Ystradgynlais ac yn cynnwys pobl leol fel actorion, a gwyddom i Josef fynd i'w gweld. Roedd y ffilm yn foment ddiwylliannol bwysig i'r dref ac yn ddi-os wedi arwain at Herman yn ymweld â'r lle. Bydd y llwybr yn dod â chi i Gapel Yorath yng Nghwmgïedd lle trafodir bwysigrwydd a dylanwad *The Silent Village*.

Bron yn union gyferbyn â'r sinema roedd ffotograffydd talentog, a ffrind i Herman, Llew E Morgan yn byw. Gan nad oedd yn un am giwio, byddai Josef yn aros yn y tŷ tra bod gwraig Llew yn edrych allan o'r ffenestr ac yn dweud wrtho pan oedd y ciw wedi mynd er mwyn iddo allu osgoi aros mewn rhes.

Yn ei llyfr Full Circle, cofia Carole Morgan Hopkin, sy'n Ymddiriedolwr y Sefydliad, ei thad-cu Llew a gofnododd fywyd yn y cymoedd a thu hwnt drwy ei ffotograffiaeth. Fe'i gwelwyd yn aml yn cerdded o amgylch y pentref a'r cyffiniau, ond byth heb ei gamera nodweddiadol o amgylch ei ysgwyddau.

Roedd Herman yn edmygu ffotograffau "arddull ddogfennol" Llew, a dywedodd eu bod yn "hanfodol i'r dealltwriaeth o fywyd bob dydd yng Nghymru." Yn ei lyfr "Notes from a Welsh Diary" (1993) cofia Herman "Ar y ffordd gul, bryniau uchel lliw mwsogl ac awyr fechan. Wrth gerdded gyda Llew yr holl ffordd o Ystradgynlais buom yn siarad am atyniad rhyfeddol lleoedd ynysig... Mae fy sgyrsiau mynych ag ef yn parhau yn fy nghof gydag atseiniau ei lais tawel."

Disgrifia Carole sut y byddai Llew yn aml y gwahodd gwesteion, gan gynnwys Herman i swper yn ei gartref y 'Merton', lle byddai sgyrsiau deallusol a gwleidyddol amrywiol yn aml i'w clywed hyd yr oriau mân.



*Two Miners © Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

# Ffynonellau / Darllen Pellach

## Celf
www.tate.org.uk/art/artists/josef-herman-1276
www.glynnvivian.co.uk/collections/collection-highlights/josef-herman-1911-2000/
www.benuricollection.org.uk/intermediate.php?artistid=25
www.flowersgallery.com/artists/34-josef-herman

## Llyfrau
The Journals gan Josef Herman
Related Twilights - Notes from an Artist's Diary gan Josef Herman
A Welsh Mining Village gan Josef Herman
Josef Herman - A Working Life gan Nini Herman
Full Circle - The Life of Llew E Morgan gan Carole Morgan Hopkins
The Art and Life of Josef Herman gan Monica Bohm-Duchen
Notes from a Welsh Diary gan Josef Herman

## Ffilmiau
Josef Herman: Sketches of Wales (Ffilm Fer) www.youtube.com/watch?v=WBNJWACE8sQ
Cynefin (Ffilm Fer) www.peoplescollection.wales/items/994311
The Making of 'Cynefin - Ein Croeso' (Ffilm Fer) www.peoplescollection.wales/items/1003361
Uncle Ahmad's Canaries (Ffilm Fer) www.peoplescollection.wales/items/993881
The Silent Village (1943) https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-the-silent-village-1943-online

## Sain
'Mining Josef Herman', Hanes Llafar gan Catrin James www.peoplescollection.wales/collections/833901

## Erthyglau
'Josef Herman: Art from the Valleys' gan Carole Hopkin www.thejc.com/culture/features/josef-herman-artist-1.442381



*Pregnant Woman with Friend*

*© Ystâd Josef Herman. Llun © Tate*

Josef Herman Arts Foundation
Sefydliad Celf Josef Herman

# JOSEF HERMAN ARTIST
# *HERITAGE TRAIL*
# LLWYBR TREFTADAETH
## YSTRADGYNLAIS, 1944-1955




1 Miners Welfare Hall
2 Teddy Bear Bridge
3 Penybont Inn
4 'Siop Jim Bach', Red Square
5 Ystrad Bridge
6 'Catria' Josef Herman's Studio
7 Gough Buildings
8 Old Canal
9 Oddfellow Street
10 Cwmgiedd
11 Ynyscedwyn Colliery
12 Astoria Cinema
13 Capel Sardis Chapel

This map has been created as part of the Josef Herman Arts Foundation Heritage Trail project. The project has been funded by the Heritage Lottery Fund.

Crëwyd y Map hwn fel rhan o brosiect Llwybr Treftadaeth Sefydliad Celf Josef Herman. Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.